

Cefnogi Pobl Sir Ddinbych Cyfeirlyfr o Wasanaethau Cymorth

Cefnogi Pobl
Cyngor Sir Ddinbych



Ebrill 2016

Cefnogi Pobl Sir Ddinbych

Beth ydi Cefnogi Pobl?

Mae Cefnogi Pobl yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau cefnogaeth yn ymwneud â thai i bobl ddiamddiffyn dros 16 oed. Mae'n eu galluogi i fyw yn annibynnol yn y gymuned ac osgoi'r risg o fod yn ddigartref.

Beth yw cymorth sy'n gysylltiedig â thai?

Darperir cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i gynorthwyo pobl ddiamddiffyn i ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder sy'n hanfodol i fyw mor annibynnol â phosibl.

Gall cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai gynnwys cymorth a chyngor gyda:

- Datblygu sgiliau bywyd a sgiliau domestig
- Cyllidebu a rheoli arian
- Mynediad at wasanaethau a chyfleoedd eraill
- Sefydlu diogelwch

Sut i wneud cais..

Bydd darpariaeth gwasanaethau cymorth yn gysylltiedig â thai yn seiliedig ar anghenion a nodwyd neu aseswyd a gwneir atgyfeiriadau fel arfer drwy asiantaethau neu sefydliadau gwirfoddol i'r Tîm Llwybr Cefnogi Pobl.

Gallwch:

- Ofyn i asiantaeth neu sefydliad gwirfoddol sy'n eich cynorthwyo ar hyn o bryd i gysylltu â ni
- Gofyn i'ch gweithiwr cymdeithasol neu Weithiwr Proffesiynol i gysylltu â ni
- Gofyn i'ch teulu neu'ch ffrindiau i gysylltu â ni
- Cysylltu â ni eich hunan

E-bost: supporting.people@denbighshire.gov.uk
Rhif Ffôn: 01824 706450

Sut i ddarganfod mwy

Am fwy o wybodaeth neu i lawrlwytho ffurflen atgyfeirio, ewch i dudalen Cefnogi Pobl www.sirddinbych.gov.uk

Cynnwys y Cyfeirlyfr:

Tîm Llwybr Unigol / Gweithwyr Achosion Cymhleth 6

Gwasanaethau Cam-drin Domestig

Lloches De Sir Ddinbych Cymorth i Fenywod Glyndŵr 7
 Lloches Gogledd Sir Ddinbych Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych 7
 Tai â Chymorth Cam-drin Domestig Hafan Cymru 7
United Against Domestic Abuse 7

Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Prosiect Camddefnydd Sylweddau a Iechyd Meddwl Sy'n Cyd Ddigwydd (COMS) CAIS 8
 Cefnogaeth Symudol ABBA Cymryd Rhan 8
 Cefnogaeth Symudol Iechyd Meddwl Grŵp Cynefin 8
 Cefnogaeth Symudol ACTS Hafal 8
 Cefnogaeth Symudol Pedair Wal Hafal 8
 Tai â Chymorth Iechyd Meddwl Digartref Hafal 9
 Cefnogaeth Symudol Iechyd Meddwl Hafan Cymru 9
 Tai â Chymorth a Cefnogaeth Symudol Tŷ Môr 9

Gwasanaethau Cyffredinol

Gwasanaeth Dros 25 oed Clwyd Alyn 10
 Gwasanaeth Cefnogaeth Symudol Cyffredinol Cyngor Sir Ddinbych 10
 Tŷ Golau Clwyd Alyn a Chyngor Sir Ddinbych 10
 Gwasanaeth Hyblyg NACRO 10
 Tai â Chymorth Seashells 10
 Cefnogaeth Symudol Tîm Cymorth Hyblyg Generig Dwys Wallich 11

Gwasanaethau Pobl Ifanc

Tai â Chymorth Y Dyfodol Clwyd Alyn	12
Tai â Chymorth Yr Hafod a Chefnogaeth Symudol Grŵp Cynefin	12
Tai â Chymorth Pobl Ifanc a Chefnogaeth Symudol Hafan Cymru	12
Llety â Chymorth <i>Local Solutions</i> Sir Ddinbych	13
Lloches Dros Nos <i>Local Solutions</i>	13
Prosiect Cymorth Cyffredinol Pobl Ifanc	13

Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Tai â Chymorth Alcohol a Chyffuriau a Chefnogaeth Symudol CAIS	14
Cefnogaeth Symudol Camddefnydd Alcohol CAIS	14
Tai â Chymorth <i>Doorstep</i> Wallich Conwy a Sir Ddinbych	14

Gwasanaethau Anabledd Dysgu

Cefnogaeth Symudol <i>Street Cred</i> Cymryd Rhan	15
Tîm Anableddau Dysgu Cyngor Sir Ddinbych	15
Cefnogaeth Symudol <i>Keyring</i>	15

Teuluoedd ag Anghenion Cefnogaeth

Tîm Cefnogi Teuluoedd Cyngor Sir Ddinbych	16
Cefnogaeth Symudol Teuluoedd Agored i Niwed Wallich	16

Gwasanaethau Pobl Hŷn

Gwasanaeth Byw'n Annibynnol â Chefnogaeth Cyngor Sir Ddinbych.	17
--	----

Pobl gyda Statws Ffoadur

Y Groes Goch Brydeinig Prosiect Cyfeiriadedd Rhaglen Ailsefydlu Syriaid

18

Tîm Y Llwybr Sengl

Enw'r Prosiect Cymorth a'r Darparwr Gwasanaeth	Isafswm o gleientiaid	Disgrifiad Gwasanaeth
Tîm Llwybr Unigol / Gweithwyr Achosion Cymhleth Cyngor Sir Ddinbych	120	<p>Mae'r prosiect hwn yn sicrhau un llwybr atgyfeirio i bobl sy'n cael mynediad at brosiectau Cefnogi Pobl o fewn Sir Ddinbych. Bydd y gwasanaeth yn cydweddu anghenion â gwasanaethau cefnogi, yn sicrhau bod anghenion yn cael eu hystyried ar y cyd gan yr asiantaethau priodol, a bod mynediad at gymorth yn deg a chyfartal. Ble gallai cymhlethdodau effeithio ar fynediad unigolyn at gymorth tai, bydd y gwasanaeth yn annog dull aml-asiantaeth (e.e. drwy alw cyfarfod aml-asiantaeth er mwyn creu cynllun gweithredu)</p>

Gwasanaethau Cam-drin Domestig

Enw'r Prosiect Cymorth a'r Darparwr Gwasanaeth	Isafswm o gleientiaid	Disgrifiad Gwasanaeth
Lloches De Sir Ddinbych Cymorth i Fenywod Glyndŵr	5	Mae hwn yn brosiect cymorth mynediad uniongyrchol cyfnod penodol dwyster uchel iawn ar gyfer menywod sy'n dianc rhag cam-drin domestig ac sydd o ganlyniad yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Bydd y lloches yn darparu llety mewn argyfwng i fenywod, pobl ifanc a phlant er mwyn eu galluogi i ddianc rhag cam-drin domestig a derbyn cymorth perthnasol i gwrdd eu gofynion penodol.
Prosiect Tai â Chymorth Cam-drin Domestig Hafan Cymru	8	Dyma brosiect cymysg o dai â chymorth dwyster uchel, cyfnod penodol, ar gyfer pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych sydd ag anghenion cymorth perthnasol i gam-drin domestig ac sydd un ai'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd o ganlyniad. Mae dwy elfen i'r prosiect: <ul style="list-style-type: none"> • 5 uned o Tai â Chymorth dwyster uchel iawn ar gyfer menywod yn unig • 3 uned o Dai â Chymorth dwyster uchel ar gyfer menywod a dynion
Lloches Gogledd Sir Ddinbych Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych	5	Mae hwn yn brosiect cymorth mynediad uniongyrchol cyfnod penodol dwyster uchel iawn ar gyfer menywod sy'n dianc rhag cam-drin domestig ac sydd o ganlyniad yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Bydd y lloches yn darparu llety mewn argyfwng i fenywod, pobl ifanc a phlant er mwyn eu galluogi i ddianc rhag cam-drin domestig a derbyn cymorth perthnasol i gwrdd eu gofynion penodol. Gellir ystyried dynion hefyd ar gyfer dwy o'u hunedau.
Cefnogaeth Symudol Cam-drin Domestig BAWSO <i>United Against Domestic Abuse</i>	24	Dyma brosiect cefnogaeth symudol dwyster canolig, cyfnod penodol ar gyfer pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych sydd ag anghenion cymorth perthnasol i gam-drin domestig ac sydd unai'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd o ganlyniad.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Enw'r Prosiect Cymorth a'r Darparwr Gwasanaeth	Isafswm o gleientiaid	Disgrifiad Gwasanaeth
Prosiect Camddefnydd Sylweddau a Iechyd Meddwl Sy'n Cyd Ddigwydd CAIS	15	Bydd y prosiect yn cefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a allai fod heb gael diagnosis eto, neu'n cael eu hasesu ar hyn o bryd. Mae'n bosib eu bod yn defnyddio sylweddau er mwyn rheoli symptomau iechyd meddwl, neu mae'n bosib taw eu defnydd o sylweddau sy'n achosi mwy o symptomau iechyd meddwl gwael. Bydd y prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar NPS a bydd yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth nad ydynt efallai'n cydnabod bod ganddynt broblem ac / neu ddim yn teimlo'r angen i fynd at wasanaethau traddodiadol.
Gwasanaeth ABBA Cymryd Rhan	10	Dyma brosiect cefnogaeth symudol dwyster canolig, cyfnod penodol, ar gyfer pobl sy'n profi arwyddion cynnar o ddementia, ac a allai o bosibl profi anawsterau wrth gynnal eu hannibyniaeth oherwydd problemau cof, iselder, seicosis neu broblemau tebyg.
Cefnogaeth Symudol Iechyd Meddwl Grŵp Cynefin	12	Dyma brosiect cefnogaeth symudol dwyster isel, cyfnod penodol, ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys y rheiny nad oes ganddynt efallai ddiagnosis ffurfiol ac a hoffai i ni eu cynorthwyo i fynd i'r afael â hyn. Bydd Anghenion Iechyd Meddwl o lefelau amrywiol ac mewn rhai achosion gallent fod o ganlyniad uniongyrchol i'w sefyllfa o ran tai, h.y. hwyliau isel, pryder ac iselder.
Cefnogaeth Symudol ACTS Hafal	12	Dyma brosiect cefnogaeth symudol dwyster canolig, cyfnod penodol, ar gyfer pobl gydag anghenion iechyd meddwl. Darperir cymorth i bobl sydd wedi eu cael diagnosis o anghenion iechyd meddwl ac anghenion lefel uchel o ran tai, ac sy'n derbyn gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd .
Cefnogaeth Symudol Pedair Wal Hafal	8	Dyma brosiect cefnogaeth symudol dwyster canolig, cyfnod penodol, ar gyfer pobl gydag anghenion iechyd meddwl. Darperir cefnogaeth i bobl nad ydynt yn derbyn neu sy'n anghymwys am wasanaethau iechyd meddwl eilaidd, ond

		sydd efallai'n derbyn gofal sylyfaenol ar gyfer anghenion iechyd meddwl. Bydd y prosiect hefyd yn cefnogi pobl sy'n cael eu nodi fel rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl drwy asesiad "digartref".
Tai â Chymorth Iechyd Meddwl Digartref Hafal	8	Dyma brosiect tai â chymorth a chefnogaeth symudol hyblyg cyfnod penodol dwyster uchel iawn sy'n darparu llety a chefnogaeth i bobl ddigartref ag anghenion iechyd meddwl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl. Darperir cefnogaeth i bobl nad ydynt yn derbyn neu sy'n anghymwys am wasanaethau iechyd meddwl eilaidd, ond sydd efallai'n derbyn gofal sylfaenol ar gyfer anghenion iechyd meddwl.
Cefnogaeth Symudol Iechyd Meddwl Hafan Cymru	10	Dyma brosiect cefnogaeth symudol dwyster uchel ar gyfer pobl ddiamddiffyn ag anghenion iechyd meddwl a nodwyd sy'n byw yn Sir Ddinbych ac sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.
Tai â Chymorth a Chefnogaeth Symudol Iechyd Meddwl Tŷ Môr Tŷ Môr	10	Dyma wasanaeth sy'n cynnwys tai cymorth a chefnogaeth symudol ar gyfer pobl sydd o'r ddau ryw sydd yn byw yn Sir Ddinbych; sydd wedi cael diagnosis o anghenion iechyd meddwl; sydd ag anghenion lefel uchel o ran tai; ac sy'n yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

Gwasanaethau Cyffredinol

Enw'r Prosiect Cymorth a'r Darparwr Gwasanaeth	Isafswm o gleientiaid	Disgrifiad Gwasanaeth
Cefnogaeth Symudol i rai Dros 25 oed Clwyd Alyn	50	Dyma brosiect cefnogaeth symudol canolig cyffredinol, cyfnod penodol, ar gyfer pobl o'r ddau ryw sydd dros 25 oed. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn bobl o'r ddau ryw sydd ar hyn o bryd yn byw yn Sir Ddinbych ac sydd un ai'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.
Tŷ Golau Clwyd Alyn a Chyngor Sir Ddinych	11	Dyma brosiect cymorth aml-lefel yn cynnwys 3 elfen ar wahân ond sy'n gysylltiedig â'i gilydd- Gwelyau mewn argyfwng, Hostel a Thai yn Gyntaf. Bydd y prosiect yn cael ei redeg fel partneriaeth rhwng Cymdeithas Dai Clwyd Alyn a Chyngor Sir Ddinbych.
Gwasanaethau Cymorth Cyffredinol Cyngor Sir Ddinbych	13	Dyma brosiect cefnogaeth symudol dwyster uchel, cyfnod penodol, ar gyfer pobl sydd dan fygythiad o ddigartrefedd Bydd defnyddwyr gwasanaeth o'r ddau ryw ac yn byw yn Sir Ddinbych. Bydd y prosiect yn parhau yn gyffredinol er mwyn ymateb i anghenion newidiol ar draws Sir Ddinbych.
Gwasanaeth Cymorth Hyblyg NACRO	18	Dyma brosiect tai â chymorth dwyster uchel, cyfnod penodol, ar gyfer rheini sengl agored i niwed, troseddwyr a phobl ifanc sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Bydd defnyddwyr gwasanaeth o'r ddau ryw ac yn byw yn Sir Ddinbych.
Tai â Chymorth Seashells Seashells	4	Dyma brosiect tai â chymorth cyffredinol dwyster uchel iawn, cyfnod penodol. Bydd y prosiect yn cynnwys 4 uned o lety dros dro wedi'u grwpio. Bydd staff ar y safle drwy'r dydd a'r nos er mwyn sicrhau diogelwch y tenantiaid.

Cefnogaeth Symudol Tîm Hyblyg Generig Dwys Y Wallich	60	Dyma brosiect cefnogaeth symudol ar gyfer pobl sydd wedi eu cyflwyno fel bod yn ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd i'r Tîm Datrysiadau Tai o fewn Adran Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych. Bydd y prosiect yn cynnwys pedair elfen sy'n gysylltiedig â'i gilydd Teuluoedd GIFT, Pobl Ifanc GIFT, Dros 25 oed GIFT ac Anghenion Uchel GIFT.
--	-----------	--

Gwasanaethau Pobl Ifanc

Enw'r Prosiect Cymorth a'r Darparwr Gwasanaeth	Isafswm o gleientiaid	Disgrifiad Gwasanaeth
Y Dyfodol Clwyd Alyn	33	<p>Mae Camau 1 a 2 (<i>Crescent Court</i>) yn brosiect tai â chymorth 24 awr dwyster uchel iawn, cyfnod penodol ar gyfer pobl rhwng 16 – 25 o'r ddau ryw sydd yn byw yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd ac un ai'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.</p> <p>Mae Camau 3 a 4 (<i>Outreach</i>) yn brosiect tai â chymorth dwyster canolig, cyfnod penodol ar gyfer pobl rhwng 16 – 25 o'r ddau ryw sydd yn byw yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd ac un ai'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.</p>
Tai â Chymorth Yr Hafod a Chefnogaeth Symudol Grŵp Cynefin	12	<p>Dyma llety â chymorth a gwasanaeth cefnogaeth symudol ar gyfer pobl o'r ddau ryw sydd rhwng 16-25 oed ac sy'n byw yn Ninbych neu yn Ne Sir Ddinbych</p>
Tai â Chymorth a Chefnogaeth Symudol Pobl Ifanc Hafan Cymru	21	<p>Dyma brosiect Tai â chymorth a Chefnogaeth Symudol ar gyfer pobl ifanc ddiamddiffyn sy'n byw yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd ac sydd un ai'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd Mae dwy elfen i'r prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> Tai â chymorth dwyster uchel ar gyfer merched ifanc ddiamddiffyn rhwng 16-25 yn unig, y mae rhai ohonynt yn feichiog neu eisoes yn famau ifanc gyda babanod. Cefnogaeth symudol dwyster canolig i bobl ifanc ddiamddiffyn rhwng 16-25 oed o'r ddau ryw, un ai'n sengl neu fel rhan o gwpl, gyda neu heb blant dibynnol.
Llety â Chymorth Sir Ddinbych <i>Local Solutions</i>	18	<p>Darparu llety â chymorth dros dro i bobl ifanc rhwng 16 - 21 oed a galluogi pobl ifanc i ddatblygu a chynnal eu hannibyniaeth a'u sgiliau byw'n annibynnol. Mae'r</p>

		prosiect hwn ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar draws Sir Ddinbych a Sir y Fflint.
Lloches Dros Nos <i>Local Solutions</i>	4	Mae Lloches Dros Nos yn darparu llety argyfwng i bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed. Darperir y llety argyfwng gan 'westeion' gwirfoddol sy'n byw yn y gymuned a gall fod am 2 - 3 noson, neu am hyd at 3 - 4 wythnos.
Prosiect Cymorth Cyffredinol Pobl Ifanc Y Wallich	5	Dyma brosiect cefnogaeth symudol i bobl sengl a chyplau o dan 25 oed sy'n agored i niwed, heb blant dibynnol, sy'n byw yn Sir Ddinbych. Bydd cymorth am gyfnod penodol o amser a disgwylir y bydd unigolion yn symud ymlaen i fyw'n annibynnol yn y gymuned neu i brosiect arall yn y gymuned gyda chefnogaeth lefel is.

Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau

Enw'r Prosiect Cymorth a'r Darparwr Gwasanaeth	Isafswm o gleientiaid	Disgrifiad Gwasanaeth
Prosiect Cyffuriau ac Alcohol Sir Ddinbych CAIS	22	Dyma wasanaeth tai â chymorth a chefnogaeth symudol cyfnod penodol dwyster canolig. Bydd defnyddwyr gwasanaeth o'r ddau ryw a dros 25 oed ac yn byw yn Sir Ddinbych gydag anghenion cymorth o safbwynt camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Gellir cynorthwyo pobl sengl neu gyplau heb blant dibynnol.
Prosiect Cymorth Camddefnyddio Alcohol CAIS	10	Dyma brosiect cefnogaeth symudol cyffredinol dwyster canolig, cyfnod penodol, ar gyfer pobl dros 25 oed sydd ag anghenion cymorth yn ymwneud ag alcohol (e.e. yn ddibynnol ar alcohol neu'n yfed lefelau niweidiol neu beryglus o alcohol). Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn bobl o'r ddau ryw sydd ar hyn o bryd yn byw yn Sir Ddinbych ac sydd un ai'n ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd.
Stepen Drws Y Wallich	14	Llety â chymorth a gwasanaeth cefnogaeth symudol dwyster canolig i bobl o'r ddau ryw sy'n byw yng Nghonwy a Sir Ddinbych ac sydd ag anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol neu sylweddau. Mae'r prosiect ar gyfer pobl sengl neu gyplau heb blant dibynnol 16 oed a throsodd. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn sefydlog ac/neu yn derbyn triniaeth neu wedi eu rhyddhau yn ddiweddar o'r Carchar ac yn cymryd rhan mewn gwaith atal llithro'n ôl gyda'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, ar adeg atgyfeirio i'r cynllun.

Gwasanaethau Anabledd Dysgu

Enw'r Prosiect Cymorth a'r Darparwr Gwasanaeth	Isafswm o gleientiaid	Disgrifiad Gwasanaeth
Street Cred Cymryd Rhan	5	Dyma brosiect cefnogaeth symudol dwyster canolig, cyfnod penodol, ar gyfer pobl sydd ag anawsterau dysgu neu anableddau dysgu lefel isel. Darperir cymorth i bobl p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan wasanaethau cymdeithasol statudol ai peidio, ond byddwn yn canolbwyntio ar y rheiny sy'n fwy tebygol o lithro i mewn ac allan o wasanaethau statudol mewn cyfnodau o drafferthion neu argyfwng.
Y Tîm Anableddau Dysgu Cyngor Sir Ddinbych	109	Gwasanaeth byw'n gymunedol hir dymor ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu. Bwriad y gwasanaeth yw galluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i ddatblygu mwy o annibyniaeth a byw'n ddiogel o fewn eu cartref a'r gymuned leol. Ar hyn o bryd mae 40 prosiect ar draws Sir Ddinbych – 3 prosiect mewnol lle darperir y cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych a 37 prosiect allanol lle mae cymorth yn cael ei ddarparu gan 10 o ddarparwyr gwasanaethau cymdeithasol lleol a chenedlaethol.
Cefnogaeth Symudol Keyring Keyring	18	Dyma brosiect cefnogaeth symudol dwyster isel ar gyfer dwy rwydwaith wedi'i sefydlu o ddefnyddwyr gwasanaeth, un yn Ninbych ac un yn Y Rhyl. Bydd defnyddwyr gwasanaeth y prosiect yn oedolion diamddiffyn gydag anableddau dysgu, anhwylder sbectrw m awtistig, syndrom Asperger, niwed i'r ymennydd neu anghenion tebyg eraill.

Teuluoedd ag Anghenion Cefnogaeth

Enw'r Prosiect Cymorth a'r Darparwr Gwasanaeth	Isafswm o gleientiaid	Disgrifiad Gwasanaeth
Tim Cymorth i Deuluoedd Diogelu Plant Cyngor Sir Ddinbych	59	Dyma brosiect cefnogaeth symudol ar gyfer teuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau statudol yn y meysydd amddiffyn plant a phlant mewn angen yn ogystal â theuluoedd y nodwyd eu bod mewn argyfwng ac sydd angen gwasanaethau o'r fath ar frys. Yn ogystal, bydd y gwasanaeth yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal Cyngor Sir Ddinbych, lle mae dyletswydd statudol parhaol yn bodoli.
Cefnogaeth Gyffredinol i Deuluoedd Diamddiffyn Y Wallich	10	Dyma brosiect cefnogaeth symudol i bobl sengl a chyplau diamddiffyn sydd â phlant dibynnol, sy'n byw yn Sir Ddinbych ac sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Bydd cymorth am gyfnod penodol o amser a disgwylir y bydd unigolion yn symud ymlaen i fyw'n annibynnol yn y gymuned neu i brosiect arall yn y gymuned gyda chefnogaeth lefel is.

Gwasanaethau Pobl Hŷn

Enw'r Prosiect Cymorth a'r Darparwr Gwasanaeth	Isafswm o gleientiaid	Disgrifiad Gwasanaeth
Cefnogi Byw'n Annibynnol Cyngor Sir Ddinbych	320	Dyma wasanaeth cefnogaeth symudol dwyster isel cyfnod penodol ar gyfer pobl ddiamddiffyn hŷn, sydd fel arfer dros 50 oed, sydd ar hyn o bryd yn byw yn Sir Ddinbych. Bydd ar y defnyddwyr gwasanaeth angen cefnogaeth i adennill neu gynnal eu hannibyniaeth. Bydd y defnyddwyr gwasanaeth o'r ddau ryw, yn sengl neu'n rhan o gwpl, heb blant dibynnol, ac wedi eu hasesu fel bod mewn angen o gymorth o safbwynt tai.

Pobl gyda Statws Ffoadur

Enw'r Prosiect Cefnogi a Darparwr Gwasanaeth	Lleiafswm nifer y cleientiaid	Disgrifiad o'r Gwasanaeth
Prosiect Cyfeiriadedd Rhaglen Ailsefydlu Syriaid Y Groes Goch Brydeinig	8	Mae hwn yn brosiect tymor penodol o 12 mis i roi cymorth i bobl sy'n cyrraedd yn Sir Ddinbych fel rhan o Raglen Ailsefydlu Syriaid Llywodraeth y DU (SRP). Disgwylir i'r prosiect ar unwaith ffurfio cysylltiadau agos gyda grwpiau lleol a chenedlaethol, a chymryd cyfarwyddyd ganddynt wrth gydlynu'r ymateb.